OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 2136

## Gorchymyn Rheilffordd Llangollen a Chorwen 2010

## RHAN 2

DARPARIAETHAU AM WEITHFEYDD

*Prif bwerau*

**Y pŵer i adeiladu a chynnal a chadw gweithfeydd**

**4.**—(1) Caiff yr ymgymerwr adeiladu a chynnal a chadw'r gwaith rhestredig.

(2) Yn ddarostyngedig i erthygl 6 (y pŵer i wyro), ni chaniateir adeiladu'r gwaith rhestredig ond yn unig ar y llinellau neu yn y sefyllfaoedd a ddangosir ar blaniau'r gweithfeydd ac yn unol â'r lefelau a ddangosir ar y trawsluniau hynny.

**Y pŵer i adeiladu a chynnal a chadw gweithfeydd ategol**

**5.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), caiff yr ymgymerwr wneud a chynnal a chadw pa rai bynnag o'r gweithfeydd a ganlyn ag a ddichon fod yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion adeiladu'r gwaith rhestredig, neu at ddibenion ategol i hynny, sef—

(a) gweithfeydd i altro safle cyfarpar, gan gynnwys prif bibellau, carthffosydd, traeniau a cheblau;

(b) gweithfeydd i altro llwybr cwrs dŵr, neu i ymyrryd mewn modd arall ag ef;

(c) tirweddu a gweithfeydd eraill i liniaru unrhyw effeithiau andwyol a gaiff adeiladu, cynnal a chadw neu weithio'r gwaith rhestredig;

(ch) gweithfeydd er buddiant neu er diogelwch mangreoedd y mae'r gwaith rhestredig yn effeithio arnynt.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), caiff yr ymgymerwr wneud y fath weithfeydd eraill (o ba natur bynnag) ag a ddichon fod yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion adeiladu'r gwaith rhestredig, neu at ddibenion ategol i hynny.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), caiff yr ymgymerwr yn benodol o fewn y tir a bennir yng ngholofn (1) o Atodlen 2 (gweithfeydd ychwanegol) wneud a chynnal a chadw unrhyw weithfeydd a bennir yng ngholofn (2) o'r Atodlen gyda'r holl weithfeydd a'r cyfleusterau angenrheidiol sy'n gysylltiedig â'r gweithfeydd hynny.

(4) Nid yw paragraffau (1) i (3) yn awdurdodi gwneud gweithfeydd neu waith cynnal a chadw y tu allan i derfynau'r gwyriad ond yn unig os yw'r cyfryw weithfeydd yn cael eu gwneud o fewn y terfynau pellach.

**Y pŵer i wyro**

**6.** Wrth adeiladu neu gynnal a chadw'r gwaith rhestredig, caiff yr ymgymerwr—

(a) gwyro'n llorweddol oddi wrth y llinellau neu'r sefyllfaoedd a ddangosir ar blaniau'r gweithfeydd hyd eithaf terfynau'r gwyriad ar gyfer y gwaith hwnnw; a

(b) gwyro'n fertigol oddi wrth y lefelau a ddangosir ar y trawsluniau—

(i) i unrhyw raddau heb fod yn fwy na 3 metr tuag i fyny; neu

(ii) i unrhyw raddau tuag i lawr ag y canfyddir sy'n angenrheidiol neu'n hwylus.